Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales



# Gwerthusiad Economaidd o Fwyd a Diod Cymru – 2022

# Y Sector Sylfaen Bwyd

Mae Sector Sylfaen Bwyd Cymru'n cwmpasu busnesau sy'n cynhyrchu, prosesu, gweithgynhyrchu a chyfanwerthu bwyd a diod, gan gynnwys busnesau eilaidd sydd eu hangen yn y diwydiant bwyd a diod[1].

Y sector Sylfaen Bwyd yw prif ffocws gweledigaeth, cenhadaeth ac amcanion Gweledigaeth Strategol Diwydiant Bwyd a Diod Cymru[2].

O'i gymharu â 2021, gwelodd y sector leihad o 4.7% yn ei drosiant yn 2022, o £8.5bn i £8.1bn. Rhai is-sectorau fel Diodydd a Phobi oedd i gyfrif am y gostyngiad. Ar y llaw arall, gwelwyd cynnydd yn nhrosiant rhai is-sectorau fel Cig a Chynhyrchion Cig. Rydym yn archwilio rhai o'r is-sectorau hyn yn fanylach nes ymlaen yn y gwerthusiad hwn. Mae trosiant y sector wedi bod yn tyfu yn y tymor hwy, gan gynyddu 14.8% o £7.0bn yn 2015. Cynyddodd GVA Sector Sylfaen Bwyd Cymru 2.2% rhwng 2020 a 2021 (y data diweddaraf sydd gennym), o £2.18bn i £2.23bn.


Roedd 1,569 o unedau busnes lleol yn y sector yn 2022, 8 uned yn llai na'r flwyddyn cynt ond cynnydd o 229 ers 2015. Roedd 74% o'r unedau busnes yn y sector yn fusnesau Micro yn 2022, 6% yn fwy nag yn 2021.

Mae'r ffigur hwn yn debyg i ffigur gwledydd eraill y Deyrnas Unedig (DU). 76% yw'r ffigur yn Lloegr, 72% yng Ngogledd Iwerddon a 67% yn yr Alban

O ran unedau busnes eraill y sector yng Nghymru, roedd 17% yn fach, 8% yn rhai canolig a 2% yn fusnesau mawr. Roedd gan 88 (6.6%) o fusnesau yn y sector yng Nghymru drosiant o fwy na £10m yn 2022.

Roedd y sector yn cyflogi 37,000 o bobl yn 2021, 2.8% yn fwy na'r 36,000 yn 2020. Roedd 91% o gyflogedigion y sector yn weithwyr amser llawn neu eu cyfwerth. Cyflog canolrifol y sector yng Nghymru yn 2022 oedd £25,608, 9.9% yn fwy nag yn 2021. Yn yr un cyfnod, cynyddodd cyflog canolrif y DU 4.9%, i £27,083 o £25,806 yn 2021. Roedd 86% o'r holl weithwyr yn Sector Sylfaen Bwyd Cymru yn ennill y Cyflog Byw Real neu fwy yn 2022, cynnydd sylweddol o'r 72% yn 2021.

**Trosiant fesul Sector 2015-2022, (£miliwn)**




---

1 Fel gweithgynhyrchwyr y cynnyrch plastig a gwydr a ddefnyddir yn y system fwyd. Fe welwch yr holl gategorïau y mae'r sector sylfaen wedi'i rannu ynddynt yn **y Diffiniad o'r Sector Sylfaen Bwyd a Diod**.

2 Mae'r holl Weledigaeth Strategol ar gyfer Diwydiant Bwyd a Diod Cymru i'w gweld yn y **Weledigaeth ar gyfer y diwydiant Bwyd a Diod o 2021**.


Er i nifer yr unedau busnes yn y sector gwympo o'r naill flwyddyn i'r llall, roedd y rhan fwyaf yn fusnesau bach (10-49 o gyflogedigion). Rhwng 2015 a 2022 cafwyd 209 o fusnesau Micro newydd (llai na 10 gweithiwr), 18 busnes bach newydd a 3 busnes mawr newydd (250+ o weithwyr).

Roedd 31% o weithwyr y sector yn gweithio i fusnesau canolig yn 2022 a 48% yn gweithio i fusnesau mawr, gyda busnesau micro a bach yn cyflogi cyfran lawer llai o'r farchnad, dim ond 20% .


Yr is-sector a welodd y twf mwyaf yn nifer ei unedau busnes rhwng 2015 a 2022 oedd Diodydd, gyda 68 o unedau newydd. Yr is-sector hwn welodd y twf mwyaf hefyd yn nifer yr unedau busnes micro (+58) a'r unedau busnes bach (+13).

Yn 2022, roedd gan 77% (1,028) o fusnesau'r sector sylfaen bwyd yng Nghymru drosiant o lai na £1m. Roedd y busnesau hynny'n cyfrif am 15% o'r gweithwyr a 5% o drosiant y sector, ar gyfer busnesau â'u pencadlys yng Nghymru. Roedd gan 7% (88) o fusnesau Cymreig y sector drosiant o fwy na £10m. Roedd y busnesau hynny'n cyfrif am 65% o'r gweithwyr a 79% o'r trosiant. Ceir manylion llawn y busnesau, cyflogedigion a throsiant fesul band trosiant yn Atodiad A.

### Unedau Busnes y Sector Sylfaen Bwyd fesul Is-sector, 2022




### Trosiant y Sector Sylfaen Bwyd fesul Is-sector (£miliwn), 2022




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Gofrestr Ryng-adrannol o Fusnesau (IDBR).*

*Cyfanwerthu yn yr adran uchod yw diffiniad y Sector Sylfaen Bwyd o Gyfanwerthu. Cyfanwerthu heb: "Cyfanwerthu cynhyrchion tybaco', 'Cyfanwerthu anifeiliaid byw' a 'Cyfanwerthu blodau a phlanhigion'.*

*Mae'r categori 'Sectorau sy'n weddill' yn cynnwys Bwyd Parod Anifeiliaid, Ffrwythau a Llysiau, a Physgod a Chramenogion.*

### Tabl 1: Busnesau sector sylfaen bwyd yn ôl maint

| Maint y Busnes | Unedau Busnes 2022 | % Cyfanswm yr Unedau | Trosiant 2022 (£m) | % Cyfanswm y Trosiant | Gweithwyr 2022 (mil) | Cyfanswm Gweithwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mawr (250+) | 27 | 1.7% | 4,096 | 50.6% | 17.0 | 48.3% |
| Canolig (50–249) | 117 | 7.5% | 2,568 | 31.7% | 11.0 | 31.3% |
| Bach (10–49) | 271 | 17.3% | 886 | 11.0% | 2.8 | 8.0% |
| Micro (0–9) | 1,154 | 73.6% | 539 | 6.7% | 4.4 | 12.5% |
| **Cyfanswm** | **1,569** | **100.0%** | **8,089** | **100.0%** | **35.2** | **100.0%** |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Gofrestr Ryng-adrannol o Fusnesau (IDBR). Daw ffigurau cyflogaeth y tabl hwn o'r IDBR, yn wahanol i'r ffigurau cyflogaeth a drafodir yn adrannau eraill yr adroddiad hwn, a ddaw o'r Arolwg o'r Gofrestr Fusnesau a Chyflogaeth (BRES). Argymhellir defnyddio data BRES yn lle'r IDBR wrth drafod ffigurau cyflogaeth, ond at ddibenion cymharu ffigurau cyflogaeth busnesau o faint gwahanol, defnyddir data cyflogaeth IDBR. Nid yw'r ffigurau cyflogaeth yn y tabl uchod yn cynnwys cyfran sylweddol o lafur amaethyddol.*

# Y Gadwyn Gyflenwi Bwyd a Diod


Gwelodd cadwyn cyflenwi bwyd a diod Cymru, sy'n cynnwys gweithgynhyrchu a phecynnu cysylltiedig, amaeth a physgota, adwerthu a chyfanwerthu ac arlwyo dibreswyl, ostyngiad yn ei throsiant a'i hallforion yn 2022. Cyfanswm trosiant busnesau'r sector oedd £22.3bn yn 2022, 3% yn llai na'r £23bn yn 2021. Gwelwyd cynnydd arwyddocaol mewn allforion yn 2022 o'u cymharu â 2021, gan godi o £640m i £797m yn 2022, cynnydd o 25%. Cynyddodd GVA cadwyn gyflenwi bwyd a diod Cymru 8.9% rhwng 2020 a 2021 (y data diweddaraf sydd gennym), o £5.61bn i £6.11bn.

Gwelwyd cynnydd bychan o 2% yn nifer yr unedau busnes yn y sector, o 28,018 yn 2021 i 28,434 yn 2022. Roedd 86% o'r unedau busnes yn y sector yn rhai micro, yr un faint ag yn 2021. O'i chymharu â gwledydd eraill y DU, Cymru oedd â'r gyfran uchaf ond un o fusnesau micro yn ei chadwyn gyflenwi bwyd a diod. Roedd gan Ogledd Iwerddon 90%, yr Alban 80% a Lloegr 79%.

Yn 2021, roedd y gadwyn gyflenwi yng Nghymru'n cyflogi 233,500 o bobl – 4% yn fwy nag yn 2020 – yn cyfrif am 17.5% o weithlu llawn bwyd a diod Cymru. Roedd 45% o gyflogedigion y sector yn gweithio'n amser llawn neu ei gyfwerth. Cyflog canolrifol blynyddol y sector yng Nghymru yn 2022 oedd £18,308, 18.9% yn fwy nag yn 2021, y ffigur uchaf yn y blynyddoedd diweddar. Cyflog canolrifol y sector yn y DU oedd £19,222 yn 2022, oedd yn gynnydd o 3.7% ar y flwyddyn cynt. Roedd 64% o'r holl weithwyr yn y gadwyn gyflenwi bwyd a diod yng Nghymru yn 2022 yn ennill y Cyflog Byw Real neu fwy, i fyny o 59% yn 2021.

Gwnaeth cynnyrch bwyd a diod o Gymru ennill 187 o Wobrau Great Taste yn 2022, i lawr o 272 yn y flwyddyn cynt.. Roedd gan Gymru 20 o enwau bwyd wedi'u gwarchod ym mis Gorffennaf 2023, gyda 4 arall wrthi'n cael eu prosesu. I fyny o 18 yn 2021 ac 19 yn 2022.

### Nifer y Cyflogedigion yn Is-sectorau Allweddol y Gadwyn Cyflenwi Bwyd a Diod yn 2021




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg o'r Gofrestr Fusnesau a Chyflogaeth (BRES)..*

# Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod

Gwelodd sector Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod Cymru 4% o ostyngiad yn ei drosiant yn 2022 ers 2021, o £5.3bn i £5.1bn. £1.61bn oedd GVA y sector yn 2021, cynnydd o 1.4% ar £1.59bn, ffigur 2020.

Roedd y sector yn cyflogi 24,000 o bobl yng Nghymru yn 2021, 6.7% yn fwy na'r 22,500 yn 2020. Roedd 92% o gyflogedigion sector gweithgynhyrchu bwyd a diod Cymru yn gweithio'n amser llawn neu ei gyfwerth. Cyflog canolrifol y sector yn 2022 oedd £24,003, 4.1% yn uwch na £23,050 y flwyddyn cynt. Yn 2022, roedd 81% o weithwyr y sector yn ennill y cyflog byw, cynnydd sylweddol o'r 71% yn 2021.


Roedd 668 o unedau busnes gweithgynhyrchu bwyd a diod yng Nghymru yn 2022, i lawr o 743 yn 2021.

Roedd 71% o'r 668 o unedau busnes yn fusnesau micro (16% yn fusnesau bach, 10% yn fusnesau canolig a 4% yn fusnesau mawr), yn gydradd uchaf â Lloegr. 67% yw'r ffigur yng Ngogledd Iwerddon a 63% yn yr Alban. Roedd gan 47 (8%) o fusnesau yn y sector yng Nghymru drosiant o fwy na £10m yn 2022.

Yn 2022, 16% oedd y gyfradd geni busnesau yn y sector gyda 97 o fusnesau newydd, i fyny o 15% yn 2021. Y gyfradd goroesi am 5 mlynedd i fusnesau'r sector rhwng 2017-2022 oedd 45%, i lawr o 47% yn 2016-2021.

Dros y tymor hirach mae'r sector wedi tyfu'n gryf; Cynyddodd ei drosiant 6.3% rhwng 2016 a 2022 (o £4.8bn i £5.1bn), a chynyddodd ei GVA 12.1% rhwng 2016 a 2021 (o £1.43bn i £1.61bn). Yn ogystal, cynyddodd y cyflog canolrifol 24% rhwng 2016 a 2022 (o £19,333 i £24,003), sy'n fwy na chynnydd y DU o 19% dros yr un cyfnod.

**Trosiant fesul Is-sector 2017 - 2022, (£miliwn)**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Gofrestr Ryng-adrannol o Fusnesau (IDBR).*

# Cig a Chynnyrch Cig

Trosiant sector Cig a Chynnyrch Cig Cymru yn 2022 oedd £1.4bn, cynnydd mawr o 23.1% ers y flwyddyn cynt.

Roedd y sector yn cyflogi 6,000 o bobl yn 2021, i fyny 9% o'r 5,500 yn 2020. Roedd bron holl gyflogedigion y sector yn 2021 yn gweithio'n amser llawn neu ei gyfwerth. Cyflog canolrifol y sector yn 2022 oedd £22,618, gostyngiad o 9.7% ers y flwyddyn cynt.

Roedd 64 o unedau busnes yn y sector yn 2022, gostyngiad bach o'i gymharu â'r 66 yn 2021. Hyd at 30 Mehefin 2023 o ran trin, paratoi neu gynhyrchu cynhyrchion cig, roedd 42 wedi'u cymeradwyo ar gyfer cig coch a 22 ar gyfer cig dofednod. Mae hyn ychydig yn is na'r flwyddyn cynt, pan roedd 43 o fusnesau cig coch a 27 o fusnesau cig dofednod.

Cyfanswm gwerth allforion cig a chynhyrchion cig yn 2022 oedd £265m. Mae hyn yn cynnwys £68m o allforion anifeiliaid byw, a £197m o allforion cynnyrch cig. Roedd hyn yn 41% o gynnydd ar werth allforion y flwyddyn cynt o £187m. Gwelwyd cynnydd o £12m yn yr allforion anifeiliaid byw, a gwelwyd cynnydd o £65m yn allforion cynnyrch cig o'r naill flwyddyn i'r llall.

Yn ôl Hybu Cig Cymru (HCC), allforiwyd gwerth rhyw £172m o gig dafad o Gymru yn 2022, ac o'u cyfrif gyda'r offal a allforiwyd, amcangyfrifir bod yr allforion yn werth £174m. O ran ei werth, allforiwyd tua 94% o'r cig dafad i'r UE. Amcangyfrifir bod gwerth £76m o gig eidion wedi'i allforio yn 2022, gyda thua 89% ohono wedi'i allforio i'r UE.

Gwelwyd gostyngiad o 0.6% i £916m yn y gwariant manwerthu ar gig yng Nghymru yn 2022 o'i gymharu â 2021. O'i gymharu, gwelodd Prydain Fawr gynnydd o 0.9%.

Prydau parod wedi'u hoeri oedd y categori cig â'r gyfran uchaf o'r sector manwerthu o hyd, gyda'i gyfran yn cynyddu o 16.9% i 17.3%. Yn dilyn y categori hwn yr oedd cigoedd wedi'u coginio ac yna dofednod ffres. Mae'r tri yn cyfrif am 44.7% o'r gwariant manwerthu ar gig.



Trosiant sector Cig a Chynnyrch Cig Cymru yn 2022 oedd £1.4bn, cynnydd mawr o 23.1% ers y flwyddyn cynt.

## Diodydd

£0.94bn oedd trosiant y sector diodydd yng Nghymru yn 2022, gostyngiad sylweddol o 29% ar drosiant y flwyddyn cynt o £1.3bn. Er bod y gwahaniaeth rhwng blynyddoedd yn arwyddocaol, roedd trosiant 2021 gryn tipyn yn uwch na'r blynyddoedd cynt, gan wneud i'r gostyngiad hwn ymddangos yn fwy.

Roedd y sector yn cyflogi 2,250 o bobl yn 2021, i lawr 10% o 2,500 yn 2020. Roedd 83% o gyflogedigion y sector yn gweithio'n amser llawn neu ei gyfwerth. Cyflog canolrifol y sector oedd £33,073 yn 2020, 3.5% yn is na'r flwyddyn cynt. Yn y DU gyfan, £34,132 oedd y cyflog canolrifol, tebyg i ffigur y flwyddyn cynt. Nid oes ffigurau canolrifol ar gyfer 2022 a 2021, gan fod maint y sampl mor fach.

Roedd 151 o unedau busnes yn y sector yn 2022, gostyngiad sylweddol o'r 251 yn 2021. Roedd 80% o'r unedau busnes yn y sector yn fusnesau micro, cynnydd sylweddol o'r ffigur o 50% yn 2021. Y rheswm amdano yw'r gostyngiad mawr yn nifer yr unedau busnesau bach (10-49 o weithwyr), o 116 i 24.

Cyfanswm y gwariant manwerthu ar ddiodydd yng Nghymru yn 2022 oedd £1.1bn, gostyngiad o 6.8% o'i gymharu â 2021. Roedd y gostyngiad yn y gwariant yn uwch yng Nghymru nac ym Mhrydain Fawr yn gyfan, a welodd ostyngiad o 5.5% o'r naill flwyddyn i'r llall.

Roedd gwerthiant cwrw, gwin a gwirodydd yn cyfrif am ryw dair rhan o bump (63%) o wariant manwerthu Cymru ar ddiodydd. Gwin oedd â'r gyfran fwyaf o'r tri. Ginger ale welodd y cynnydd mwyaf yn y sector dros y flwyddyn, ond mae ei gyfran o'r farchnad yn dal i fod yn fach.



”

Cyfanswm y gwariant manwerthu ar ddiodydd yng Nghymru yn 2022 oedd £1.1bn, gostyngiad o 6.8% o'i gymharu â 2021.

“

## Cynnyrch Bwyd Eraill

Mae'r sector Cynnyrch Bwyd Eraill yn cynnwys busnesau sy'n gysylltiedig â gweithgynhyrchu'r canlynol: siwgwr, cocoa, siocled, melysion, te, coffi ac amnewidion coffi, condimentau a sesnin, prydau a seigiau parod, a pharatoadau bwyd homogenaidd a bwyd deietegol[3].

Trosiant y sector Cynnyrch Bwyd Eraill yn 2021 oedd £871, i fyny 9.2% o'r £797m yn 2021.

Roedd y sector yn cyflogi 6,500 o bobl yn 2021, cynnydd o 8% o'r 6,000 yn 2020. Roedd 92% o gyflogedigion y sector yn 2021 yn gweithio'n amser llawn neu ei gyfwerth. Cyflog canolrifol y sector yn 2022 oedd £27,002, 18.1% yn uwch nag yn y flwyddyn cynt. Gwelodd cyflog canolrifol y DU lai o gynnydd rhwng 2020 a 2021, gan gynyddu 11.9%.

Roedd 125 o unedau busnes yn y sector yn 2022, mwy na'r 123 o unedau yn 2021. Roedd 66% o'r busnesau yn fusnesau Micro, i fyny 2% o'r ffigur o 64% yn 2021.

Gwelwyd cynnydd bach o 0.1% yn y gwariant manwerthu yng Nghymru ar Felysion yn y Cartref rhwng 2021 a 2022, gan gynyddu i £243m. Gwelwyd gostyngiad yn y gwariant ar De a Choffi ym marchnad fanwerthu Cymru o £113m yn 2021 i £106m yn 2022, gostyngiad o 5.9%. Gwelwyd 5.3% o gynnydd yn y gwariant ar Sawsiau Bwrdd, Condimentau a Phicls o'r naill flwyddyn i'r llall, o £55m i £59m. Ym Mhrydain Fawr, tyfodd gwariant manwerthu 0.2% ar Felysion yn y Cartref a 0.1% ar Sawsiau Bwrdd, Condimentau a Phicls, tra bod Te a Choffi wedi gostwng 1.7%.

Gwelwyd cynnydd o 1.3% yn y gwariant manwerthu ar Brydau Parod wedi'u Hoeri yng Nghymru rhwng 2021 a 2022, o £156m i £158m. Cynyddodd yr un categori ar lefel Prydain Fawr 3.1%.



"Trosiant y sector Cynnyrch Bwyd Eraill yn 2021 oedd £871, i fyny 9.2% o'r £797m yn 2021."

3 Mae paratoadau bwyd homogenaidd a bwyd dietegol yn cynnwys fformiwla babanod, llaeth dilynol, bwyd heb glwten, bwyd sodiwm isel a bwyd diebetig.

## Llaeth a Wyau

£418m oedd trosiant sector llaeth Cymru yn 2022, 7% o ostyngiad o'r trosiant o £450m yn y flwyddyn cynt. Mae hyn yn dilyn 5% o ostyngiad rhwng 2020 a 2022. Mae hyn mewn cyferbyniad â'r blynyddoedd cyn 2020, pan welwyd amrywiadau mawr bob blwyddyn.

Yn 2021 roedd y sector yn cyflogi 1250 o bobl, 32% yn fwy na'r 950 yn 2020. Roedd bron holl gyflogedigion y sector yn gweithio'n amser llawn neu ei gyfwerth, i fyny o 89% yn y flwyddyn cynt. £25,820 oedd cyflog canolrifol y sector yn 2022, i fyny 12.3% ers 2021. Cyflog canolrifol y DU oedd £29,130 yn 2022, i fyny 6.1% ers 2021.

Yn 2021 roedd 63 o unedau busnes yn y sector, cynnydd o'r 59 o unedau yn y flwyddyn cynt. Roedd 68% o'r unedau busnes hyn yn fusnesau Micro, yr un ganran â'r flwyddyn cynt. Roedd 18% yn fusnesau bach, yn cyflogi 1049 o unigolion.

Hyd at 30 Mehefin 2023 roedd 106 o fusnesau wedi'u cymeradwyo i brosesu wyau neu gynhyrchion wyau, i lawr o 107 y flwyddyn cynt ac roedd 99 o fusnesau wedi'u cymeradwyo i brosesu llaeth amrwd neu gynnyrch llaeth, i lawr o 102 yn 2021.

Cynyddodd nifer y gwartheg godro (buchod 2+ oed, wedi cael llo) yn 2022, i 255,900, i fyny o 252,450 y flwyddyn cynt. Cafodd 3.4m o ieir eu defnyddio i gynhyrchu wyau yn 2021, i fyny o 3.1m yn 2021.

£560m oedd y gwariant manwerthu yn 2021 ar gynnyrch llaeth, i fyny 5.8% o'i gymharu â'r flwyddyn cynt. Cynyddodd gwariant manwerthu Prydain Fawr hefyd yn 2022 o'i gymharu â'r flwyddyn cynt, gan dyfu 6.5%. Llaeth oedd â chyfran uchaf y gwariant yn y categori cynnyrch llaeth, a hwnnw hefyd oedd y categori â'r twf cryfaf o 14.4%. Roedd pob categori yn y sector wedi tyfu, ar wahân i hufen iâ, a welodd ostyngiad o 2.1% yn 2022.



Yn 2021 roedd y sector yn cyflogi 1250 o bobl, 32% yn fwy na'r 950 yn 2020. Roedd bron holl gyflogedigion y sector yn gweithio'n amser llawn neu ei gyfwerth, i fyny o 89% yn y flwyddyn cynt.

# Pobi

Roedd gan y sector pobi yng Nghymru drosiant o £360m yn 2022, gostyngiad o 20% o'r £450m yn y flwyddyn cynt. Mae hyn yn barhad o duedd a ddechreuodd yn 2020.

Roedd y sector yn cyflogi 5,000 o bobl yn 2021, i fyny o 4,750 yn 2020, cynnydd o 5%. Roedd 90% o'r cyflogedigion yn gweithio'n amser llawn neu ei gyfwerth, i fyny ychydig o'r 89% yn y flwyddyn cynt.

Yn 2022 roedd 176 o unedau busnes yn y sector, mwy na'r 163 yn y flwyddyn cynt. Roedd 72% o'r unedau busnes yn fusnesau Micro ac yn cyflogi llai na 10 o bobl, yr un faint â'r flwyddyn cynt.

Yn 2022 cyflog canolrifol y sector oedd £20,691, 5.5% yn uwch na £19,613, ei werth yn 2020. Mae'r cyflog ledled y DU wedi cynyddu hefyd, i £24,819, 5.3% yn uwch nag yr oedd yn 2021.

£516m oedd y gwariant manwerthu yn y sector pobi yng Nghymru yn 2022, cynnydd o 4.4% o'i gymharu â 2021. Roedd twf y farchnad ledled Prydain Fawr, 5.6%, ychydig yn uwch nag yng Nghymru. Nwyddau boreol oedd â chyfran uchaf y gwariant yn y farchnad yng Nghymru o hyd, sef 23.7%. Gwelodd bisgedi plant a theisennau wedi oeri dwf cryf, gyda'r gwariant manwerthu ar fisgedi plant yn cynyddu 15.3%.



£516m oedd y gwariant manwerthu yn y sector pobi yng Nghymru yn 2022, cynnydd o 4.4% o'i gymharu â 2021.

# Manwerthu a Chyfanwerthu

Roedd gan y diwydiant manwerthu drosiant o £9.4bn yn 2022, i fyny 4.1% o £9bn yn 2021.

Roedd y sector manwerthu'n cyflogi 72,000 o bobl yn 2021, 17.1% yn fwy na'r 61,500 oedd yn cael eu cyflogi yn y sector yn 2020. Roedd 27% o'r cyflogedigion yn gweithio'n amser llawn neu ei gyfwerth. Cyflog canolrifol y sector yn 2021 oedd £13,990, 2.8% yn fwy na £13,601, cyflog canolrifol 2021. Gwelodd cyflog canolrifol y sector ledled y DU gynnydd o 5.1%

Gwelwyd gostyngiad yng nghanran y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn sy'n gweithio yn y sector rhwng 2018 a 2019 o 29% i 27%, gan aros yn gyson â 2020 a 2021. Ym Mhrydain Fawr gostyngodd y canran o weithwyr cyfwerth ag amser llawn fymryn, o 32% yn 2020 i 31% yn 2021.

Yn 2022 roedd 4,052 o unedau busnes yn y sector, bron iawn yr un fath â'r 3,953 o unedau busnes yn 2021. Roedd 71% o'r busnesau yn y sector yn 2022 yn fusnesau Micro, ychydig bach yn uwch na 70% y flwyddyn cynt.

Cyfanswm y gwariant manwerthu ar nwyddau groser oedd £6.3bn yn 2021, gostyngiad bychan o'i gymharu â'r flwyddyn cynt. Gwelodd Prydain Fawr gyfan gynnydd bychan, o 0.8%, o £129bn i £130bn.

Tesco oedd i gyfrif am 29.0% o gyfanswm y gwariant yng Nghymru yn 2022, y mwyaf o'r holl archfarchnadoedd, gan gynyddu ei gyfran 0.4% ers 2021. Yn dilyn Tesco yr oedd Asda (14.6%), Morrisons (9.0%), Aldi (7.7%) a Lidl (7.0%) o ran eu cyfran o'r gwariant yng Nghymru.

Roedd gan y sector cyfanwerthu drosiant o £2.0bn yn 2022, i lawr o £2.2bn yn 2021.

Roedd y sector cyfanwerthu yn cyflogi 9,000 o bobl yn 2021, cynnydd o 12.5% ar yr 8,000 oedd yn gyflogedig yn 2020. Roedd 82% o'r cyflogedigion yn gweithio'n amser llawn neu ei gyfwerth. Y cyflog canolrifol yn 2022 oedd £24,684, cynnydd o 20.8% ar ffigur 2021 o £20,440. Gwelwyd cynnydd yn y cyflogau canolrifol yn y DU hefyd, ond ar raddfa lai o 6.5% rhwng 2021 a 2022.



Roedd y sector manwerthu'n cyflogi 72,000 o bobl yn 2021, 17.1% yn fwy na'r 61,500 oedd yn cael eu cyflogi yn y sector yn 2020.

# Arlwyo

Mae'r sector arlwyo yn cynnwys pob arlwyo dibreswyl gan gynnwys bwytai a chaffis, gweini bwyd, arlwywyr symudol, bwyd têc-awê ac arlwyo ar gyfer digwyddiadau.

Trosiant y sector yn 2022 oedd £2.3bn, gostyngiad sylweddol o 26.2% ers 2021 (£3.2bn).

Roedd y sector yn cyflogi 82,500 o bobl yn 2021, cynnydd o 3.8% o 79,500 yn 2020. Roedd 31% o'r cyflogedigion yn y sector yn gweithio'n amser llawn neu ei gyfwerth. Cyflog canolrifol y sector oedd £11,349 yn 2022, cynnydd sylweddol o 22.8% o'r £9,246 yn 2020. Gwelwyd cynnydd sylweddol ar lefel y DU hefyd, o £11,143 i £13,881 (24.6% o gynnydd) yn yr un cyfnod.

Yn 2022 roedd 9,288 o unedau busnes yn y sector, cynnydd o 3.2% o'i gymharu â 2021, pan roedd 8,998 o unedau. Roedd 77% o'r unedau busnes yn y sector yn 2022 yn fusnesau Micro, yn cyflogi llai na 10 o bobl, lefel debyg i 2021.

Yn ôl yr Arolwg Costau Byw a Bwyd, roedd pobl yng Nghymru yn gwario £21.60 yr wythnos ar gyfartaledd ar wasanaethau arlwyo (bwytai, prydau caffi, diodydd alcoholig oddi cartref a thêc-awês) yn 2022, i lawr o £26.80 y flwyddyn cynt. Dyma'r swm isaf ym 4 gwlad y DU, y nesaf yw'r Alban gyda £23.80 yr wythnos.




Yn 2022 roedd 9,288 o unedau busnes yn y sector, cynnydd o 3.2% o'i gymharu â 2021.

# Atodiad A: Diwydiannau Bwyd a Diod Cymru – Ystadegau Ychwanegol

## Trosiant Bwyd a Diod, Unedau Busnes a GVA o'i gymharu â'r DU

| Metrig | Cymru | DU | Cymru fel % o'r DU |
|---|---|---|---|
| **Sector Sylfaen Bwyd** | | | |
| Trosiant 2022 | £8.1bn | £230.4bn | **3.5%** |
| Unedau Busnes 2022 | 1,569 | 40,835 | **3.8%** |
| GVA 2021 | £2.23bn | £48.78bn | **4.6%** |
| **Cadwyn Gyflenwi Bwyd a Diod** | | | |
| Trosiant 2022 | £22.3bn | £553.6bn | **4.0%** |
| Unedau Busnes 2022 | 27,815 | 461,540 | **6.0%** |
| GVA 2021 | £6.11bn | £138.88bn | **4.4%** |
| **Sector Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod** | | | |
| Trosiant 2022 | £5.1bn | £107.3bn | **4.8%** |
| Unedau Busnes 2022 | 668 | 14,225 | **4.7%** |
| GVA 2021 | £1.61bn | £28.67bn | **5.6%** |

### Cyflogaeth yn ôl Is-sectorau Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod yng Nghymru, 2021




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Arolwg o'r Gofrestr Fusnesau a Chyflogaeth (BRES). Mae'r categori 'Sectorau sy'n weddill' yn cynnwys Bwyd Parod Anifeiliaid, Ffrwythau a Llysiau, a Physgod a Chramenogion.*

### Sector Sylfaen Bwyd: Twf yn y Trosiant 2015–2022

| Blwyddyn | Cymru | | | DU | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Trosiant | Twf yn y Trosiant | Twf yn y Trosiant % | Trosiant | Twf yn y Trosiant | Twf yn y Trosiant % |
| 2015 | £7bn | -£0.26bn | -3.6% | £217.6bn | £10.3bn | 5.0% |
| 2016 | £7.7bn | £0.63bn | 8.9% | £219.8bn | £2.15bn | 1.0% |
| 2017 | £7.4bn | -£0.26bn | -3.4% | £220.2bn | £0.47bn | 0.2% |
| 2018 | £7.5bn | £0.13bn | 1.8% | £223.7bn | £3.44bn | 1.6% |
| 2019 | £8.2bn | £0.64bn | 8.5% | £228.6bn | £4.93bn | 2.2% |
| 2020 | £7.9bn | -£0.27bn | -3.2% | £232.7bn | £4.11bn | 1.8% |
| 2021 | £8.5bn | £0.56bn | 7.0% | £233.6bn | £0.88bn | 0.4% |
| 2022 | £8.1bn | -£0.4bn | -4.7% | £230.4bn | -£3.19bn | -1.4% |

### Cadwyn Gyflenwi Bwyd a Diod: Twf yn y Trosiant 2015–2022

| Blwyddyn | Cymru | | | DU | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Trosiant | Twf yn y Trosiant | Twf yn y Trosiant % | Trosiant | Twf yn y Trosiant | Twf yn y Trosiant % |
| 2015 | £20.7bn | £0.56bn | 2.8% | £515bn | £25.04bn | 5.1% |
| 2016 | £21.1bn | £0.39bn | 1.9% | £516.2bn | £1.14bn | 0.2% |
| 2017 | £20.8bn | -£0.32bn | -1.5% | £520.3bn | £4.18bn | 0.8% |
| 2018 | £21.3bn | £0.56bn | 2.7% | £538.2bn | £17.89bn | 3.4% |
| 2019 | £22.1bn | £0.76bn | 3.6% | £548.9bn | £10.64bn | 2.0% |
| 2020 | £22.4bn | £0.27bn | 1.2% | £562.8bn | £13.89bn | 2.5% |
| 2021 | £23bn | £0.64bn | 2.9% | £569.8bn | £7.08bn | 1.3% |
| 2022 | £22.3bn | -£0.69bn | -3.0% | £553.6bn | -£16.29bn | -2.9% |

### Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod: Twf yn y Trosiant 2015–2022

| Blwyddyn | Cymru | | | DU | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Trosiant | Twf yn y Trosiant | Twf yn y Trosiant % | Trosiant | Twf yn y Trosiant | Twf yn y Trosiant % |
| 2015 | £4.2bn | £0.26bn | 6.7% | £101.8bn | £6.85bn | 7.2% |
| 2016 | £4.8bn | £0.68bn | 16.4% | £103.3bn | £1.47bn | 1.4% |
| 2017 | £4.6bn | -£0.22bn | -4.5% | £98.1bn | -£5.15bn | -5.0% |
| 2018 | £4.8bn | £0.23bn | 5.0% | £99.8bn | £1.65bn | 1.7% |
| 2019 | £5.2bn | £0.39bn | 8.1% | £104.5bn | £4.68bn | 4.7% |
| 2020 | £4.9bn | -£0.39bn | -7.4% | £102.7bn | -£1.72bn | -1.6% |
| 2021 | £5.3bn | £0.5bn | 10.2% | £104.2bn | £1.44bn | 1.4% |
| 2022 | £5.1bn | -£0.21bn | -4.0% | £107.3bn | £3.12bn | 3.0% |

## Dadansoddiad o ddiwydiant y Sector Sylfaen Bwyd - Busnesau sydd â'u pencadlys yng Nghymru

| Blwyddyn | Band Maint Trosiant | Nifer Endidau | Nifer Cyflogedigion | Trosiant (£m) |
|---|---|---|---|---|
| 2021 | **Cyfanswm** | **1,223** | **23,385** | **4,610** |
| | a. <£1m | 898 | 2,690 | 196 |
| | b. £1m - £2m | 96 | 810 | 134 |
| | c. £2m - £3m | 34 | 365 | 86 |
| | d. £3m - £4m | 28 | 785 | 96 |
| | e. £4m - £5m | 23 | 835 | 102 |
| | f. £5m - £10m | 61 | 2,190 | 428 |
| | g. >£10m | 83 | 15,710 | 3,568 |
| 2022 | **Cyfanswm** | **1,331** | **22,605** | **4,568** |
| | a. <£1m | 1,028 | 3,335 | 216 |
| | b. £1m - £2m | 81 | 865 | 115 |
| | c. £2m - £3m | 36 | 450 | 91 |
| | d. £3m - £4m | 20 | 530 | 72 |
| | e. £4m - £5m | 28 | 810 | 125 |
| | f. £5m - £10m | 50 | 1,880 | 340 |
| | g. >£10m | 88 | 14,735 | 3,610 |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Gofrestr Ryng-adrannol o Fusnesau (IDBR).*

# Atodiad B: Nodiadau ar y Fethodoleg

Cafodd y data yn y gwerthusiad hwn eu crynhoi rhwng Ionawr 2022 a Gorffennaf 2022.
Yr ystadegau a gyflwynwyd yn y gwerthusiad hwn oedd y rhai diweddaraf a oedd ar gael ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

**Dull newydd ar gyfer cyfri'r GVA:**

Mae'r holl ffigurau GVA (Gwerth Ychwanegol Gros) a ddefnyddir yn y cyhoeddiad hwn yn amcangyfrifon sy'n seiliedig ar set ddata'r Arolwg Blynyddol o Fusnesau (ABS) gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) a'r **Cyfrifon GVA Rhanbarthol (wedi'u mantoli) yn ôl diwydiant**.

Cyfrifir cyfran y GVA trwy ddefnyddio data ABS, hynny ar lefel cod SIC 2 ddigid y rhoddir cyfrif amdano gan y codau SIC 5 digid a ddefnyddir i ddiffinio sector bwyd penodol. Er enghraifft, os bydd dau allan o ddeg cod SIC 5 digid o fewn cod SIC 2 ddigid lefel uwch yn cael eu defnyddio mewn diffiniad o sector bwyd a bod y codau hyn yn cyfrif am 75% o gyfanswm gwerth y cod SIC 2 ddigid, yna 75% fydd y gyfran honno. Yna lluosir y gyfran hon â GVA cod SIC 2 ddigid yn y tabl o Gyfrifon Rhanbarthol i amcangyfrif cyfran y GVA a ddaw o sector bwyd penodol.

I weld y codau SIC 5 digid a ddefnyddir i ddiffinio'r Sector Sylfaen Bwyd, ewch i'r **Diffiniad o'r Sector Sylfaen Bwyd a Diod**. Yn sgil newid y fethodoleg, nid oes diben cymharu'r gwerthoedd newydd hyn â rhai blynyddoedd cynt a dylid eu defnyddio ar wahân i'w gilydd am y gallai unrhyw gynnydd neu ostyngiad fod yn ganlyniad i'r fethodoleg newydd, heb fod yn newid go iawn.

Diffinnir GVA Bwyd a Diod Cymru gan ddefnyddio'r codau SIC07 canlynol. Mae hyn wedi newid ers blynyddoedd blaenorol i ganolbwyntio ar y Sector Sylfaen Bwyd:

**10:** Gweithgynhyrchu cynnyrch bwyd.
**11-12**: Gweithgynhyrchu diodydd a chynnyrch tybaco.
**17:** Gweithgynhyrchu cynnyrch papur.
**22:** Gweithgynhyrchu cynnyrch rwber a phlastig.
**23:** Gweithgynhyrchu cynnyrch mwynol anfetelaidd.
**25:** Gweithgynhyrchu cynnyrch metel wedi'u ffabrigadu.
**28:** Gweithgynhyrchu peiriannau ac offer.
**46:** Masnach gyfanwerthu.
**82:** Gweinyddu swyddfeydd a gweithgareddau cymorth busnes.

## Ffynonellau

| Data | Ffynhonnell y Data | Y flwyddyn ddiweddaraf a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adroddiad |
|---|---|---|
| Cyflogaeth | Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Cofrestr Busnes a Chyflogaeth (BRES) | 2021 |
| Ystadegau Busnes (unedau lleol, nifer yr endidau, trosiant) | Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau (IDBR) | 2022 |
| Enwau bwyd a diod daearyddol gwarchodedig | Enwau bwyd a diod daearyddol gwarchodedig - GOV.UK (**www.gov.uk**) | 2022/23 |
| Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) | Arolwg Blynyddol o Fusnesau yr ONS<br>Gwerth Ychwanegol Gros Rhanbarthol yr ONS yn ôl diwydiant | 2021 |
| Enillion | Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) | 2022 |
| Busnesau Cymeradwyo'r Asiantaeth Safonau bwyd | Sefydliadau Bwyd Cymeradwy: **https://data.food.gov.uk/catalog/datasets/1e61736a-2a1a-4c6a-b8b1-e45912ebc8e3** | 2023 |
| Gwobrau Blas ar Gymru | **https://greattasteawards.co.uk/** | 2022 |
| Gwariant Manwerthu | Data Kantar WorldPanel | 2022 |
| Gwerthoedd Allforion | Dadansoddiad Llywodraeth Cyrmru o'r Fasnach Ranbarthol mewn Nwyddau | 2022 |
| Gwerthoedd Allforion cig oen a chig eidion Cymru | Amcangyfrifon gan Hybu Cig Cymru (HCC) | 2022 |
| Gwariant cyfartalog ar wasanaethau arlwyo | Arolwg Costau Byw a Bwyd | 2022 |

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â:
FoodDivisionalBusiness@gov.wales neu economic.stats@gov.wales

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG48335, ISBN digidol 978-1-83504-736-1
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg